**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo, ar ddydd Mercher 21ain Ebrill 2021 gan gychwyn am 6.00pm.

**<u>YN BRESENNOL</u>**

Y Cynghorydd Mrs E. M. Chard (Maer)

Y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs J. Chamberlain-Jones, Ms J. Hughes, A. R. James, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts a T. Thomas.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 84. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, B. Mellor, A. J. Rutherford a Miss C. L. Williams.

## 85. CYFLWYNIAD: COLEG CYMUNEDOL Y RHYL

Croesawodd y Maer Mr Lawrence Wood, Pennaeth y Coleg, i'r cyfarfod a'i wahodd i ddiweddaru'r aelodau ar y datblygiadau a gynlluniwyd ar y campws.

Diolchodd Mr Wood i'r aelodau am ganiatáu iddo fynychu a siaradodd am ei hoffter tuag at y Rhyl, gan ei fod wedi tyfu i fyny yma.

Esboniodd bod lle yn brin ar y campws ond eu bod yn gwneud y mwyaf ohono, ac roedd tir cyffiniol yn cael ei brynu gan Gyngor Sir Ddinbych i leoli ystafelloedd peirianneg yn debyg i'r rhai ar gampws Llandrillo yn Rhos.

Byddai'r ystafelloedd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer sgiliau gwneuthuriad a weldio a byddai mor garbon niwtral ag y gallai fod.

Rodd y ganolfan beirianneg yn bartneriaeth rhwng y coleg a diwydiant, sef RWE Renewables, gan ddarparu dolen hanfodol.

Byddai gan y datblygiad hefyd labordai ac ystafelloedd dosbarth ar gyfer 150 o fyfyrwyr a staff, gydag argraffyddion 3D, realiti rhithwir a lle mawr hyblyg ar gyfer cynnal digwyddiadau.

Cyfanswm y gost oedd £12 miliwn.

Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau gan yr aelodau, dywedodd Mr Wood:

- Roedd yr amserlen yn dynn ond gobeithid cwblhau'r prosiect erbyn mis Medi 2022.
- Roedd yr elfen peirianneg modurol yn helpu i wneud myfyrwyr yn gyflogadwy a byddai hynny'n parhau, ond roedd dyhead hefyd i ddenu myfyrwyr lefel A a bod yn opsiwn amgen da i fyfyfwyr lleol sy'n gorfod teithio i goleg Glannau Dyfrdwy.

- Yn anffodus, nid oedd yr ymgyrch hanesyddol i weithio gyda Network Rail i ymestyn ystod y sgiliau peirianneg ar y campws wedi digwydd, ond roedd llwybrau eraill yn edrych yn fwy cadarnhaol mewn cysylltiad â Bargen Twf Gogledd Cymru.

Cyn gadael y cyfarfod, diolchodd y Maer i Mr Wood am fynychu a hysbysu'r Cyngor Tref o'r cynlluniau cyffrous ar gyfer y coleg a'r dref gyfan.

**86. <u>COFNODION</u>**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 17eg Mawrth 2021 - Rhifau Cofnod 62-83

Mewn perthynas â chofnod rhif 75 (Eitem gan Aelod: Llythyr o Longyfarchiadau i Gyngor Tref Rhuddlan), dywedodd aelod ei fod wedi gweld y llythyr a gofynnodd pam nad oedd y Cynghorydd Ann Davies wedi ei chrybwyll ynddo?

Ymddiheurodd Clerc y Dref am adael hynny allan.

Mewn perthynas â chofnod rhif 80 (Adleoliad Arfaethedig Dros Dro y Cyngor Tref), gofynnodd aelodam fwy o wybodaeth ar y cynnig gwreiddiol gan Gyngor Sir Ddinbych i'r Cyngor Tref yn gofyn am gymorth ariannol tuag at adeiladu SC2, gan fod hyn cyn ei amser ef fel cynghorydd.

Dywedodd Clerc y Dref y byddai'n anfon copi o'r cofnodion perthnasol at yr aelod.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King a ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 17eg Mawrth 2021 - Rhifau Cofnod 27-29

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs J. L. McAlpine a ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 7fed Ebrill 2021 - Rhifau Cofnod 27-29

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs J. L. McAlpine a ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *eu bod yn gofnod cywir.*

<u>Cadarnhau neu fel arall:</u>

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 7fed Ebrill 2021 - Rhifau Cofnod 27-33

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King a ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.*

**87. SWYDD WAG CYNGHORYDD CYMUNED - WARD BRYNHEDDYD**

Dywedodd Clerc y Dref bod dau ymgeiswydd wedi eu henwebu i sefyll yn etholiad Ward Brynheddyd ar 6ed Mai 2021.

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod yr wybodaeth.*

**88. ADRODDIAD Y MAER**

Cyfeiriodd y Maer at y dathliad dau ddiwrnod o lwyddiannau disgyblion yn gweithio o gartref yn ystod pandemig Covid-19 yn Ysgol Babyddol Christ the Word, a oedd yn hyfryd.

**89. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.*

*Taliadau Atodiad B ar gyfer cymeradwyaeth (1af – 13eg Ebrill 2021)*

| Rhif Taleb. | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1145 | Delwedd Ltd | 21.59 | Ffi cofrestru enw parth |
| | **Cyfanswm taliadau** | **£21.59** | |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen, a byddai'n cael ei llofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.*

**90. ADRODDIAD PERFFORMIAD BUDDSODDI 2020 – 2021**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar weithgaredd buddsoddi a pherfformiad ar gyfer y flwyddyn ariannol o 1af Ebrill 2020 hyd at 31ain Mawrth 2021, gan roddi enillion bychan o £397.94.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chydnabod yr adroddiad.*

**91. RHEOLIADAU AWDURDODAU LLEOL (CORONAFEIRWS) (CYFARFODYDD) (CYMRU) 2020**

Dywedodd Clerc y Dref bod y rheoliadau yn dod i ben ar 1af Mai 2021, gan ddychwelyd awdurdodau lleol i'r rheoliadau a sefydlwyd cyn hynny, er enghraifft y rheol presenoldeb chwe mis ar gyfer cynghorwyr.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chydnabod y cyngor.*

**92. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn amlygu'r newidiadau arwyddocaol a fydd yn effeithio'r Cyngor Tref.

Disgwylir canllawiau pellach, a bydd Clerc y Dref yn adrodd yn ôl i'r Cyngor Tref maes o law.

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod a derbyn yr adroddiad.*

**93. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer: ………………….……..

Dyddiad: ……………………..